Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# AROLWG: Arolwg Busnes Gwynedd – cau 18 Mai 2022

Diolch i bawb sydd wedi llenwi Arolwg Busnes Gwynedd. Rydym eisoes yn dadansoddi'r canlyniadau i sicrhau ein bod yn gwybod beth mae busnesau ym mhob rhan o Wynedd, ac o bob sector, yn ei deimlo, ynghyd â'r math o help bydd angen iddynt ffynnu. Mi fydd yr arolwg yn cau yfory, 18 Mai 2022, felly os ydych heb gael cyfle, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech sbario ychydig funudau i gwblhau'r arolwg. Ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/surveyGwyneddbusnes

# CYFLE: Garejis/Cwmnïau Tacsi – Gorchuddion sedd car am ddim

Mae gan Cyngor Gwynedd gyflenwad o orchuddion sedd car plastic taflu i ffwrdd ar gael i fusnesau lleol am ddim ar sail y cyntaf i'r felin. Byddent yn addas ar gyfer garejis a chwmnïau tacsi. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cyflenwad, fydd yn cael ei ddosbarthu gan y Cyngor yn uniongyrchol i'ch busnes, cysylltwch â: PPEcymunedol@gwynedd.llyw.cymru gan nodi eich enw, rhif ffôn cyswllt, cyfeiriad ar gyfer danfon y nwyddau (gan gynnwys cod post) a'r amseroedd o'r wythnos y bydd rhywun yn y lleoliad.

# ARIANNU: Cronfa Sgrîn Fyd-eang y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd Cronfa Sgrîn Fyd-eang y DU yn cael ei hymestyn am dair blynedd gyda chyllid ychwanegol o £21 miliwn. Bydd diwydiannau ffilm, teledu a gemau fideo annibynnol yn elwa o'r hwb ariannol hwn i ddatblygu talent newydd, creu swyddi a thargedu cynulleidfaoedd newydd ledled y byd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/news/new-funding-to-help-spur-more-global-success-for-uks-independent-film-tv-and-video-games

# LLES: Atal aflonyddu rhywiol yn y gwaith – sector lletygarwch

Ochr yn ochr â UKHospitality, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi lansio rhestr wirio a chynllun gweithredu i helpu cyflogwyr yn y diwydiant lletygarwch i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn erbyn eu staff. Mae'r adnodd ymarferol hwn yn cynnwys cyngor diogelwch ac ataliol ar gyfer lleoliadau lletygarwch, ond gellir ei gymhwyso i unrhyw weithle, ac mae ar gael ar:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/PreventingSexualHarassmentChecklist

# TECH: Gweithdai FFIWS Caernarfon 19 Mai 2022

Cynhelir gweithdy modelu a sganio 3D yr wythnos yma yng ngofod gwneud Ffiws dros dro M-SParc #ArYLôn yn 18 Stryd y Plas, Caernarfon ar 19 Mai

2022 (4:00pm-6:30pm), lle gallwch ddysgu am ddefnyddio'r offer a'r meddalwedd. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3lg36jp

## GWOBRAU: Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2022 – Cyfnod ymgeisio yn cau 20 Mai 2022

Mae Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn gyfle i unigolion a sefydliadau gael eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u llwyddiant yn rhaglenni Llywodraeth Cymru ym maes Cyflogadwyedd a Phrentisiaethau. Mae ceisiadau ar gyfer Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2022 yn cau am 12:00pm, 20 Mai 2022. Am fwy o wybodaeth, gan gynnwys sut i wneud cais, ewch i:

https://llyw.cymru/gwobrau-prentisiaethau-cymru

## YMGYRCH: Wythnos Twristiaeth Cymru 2022, 15 – 22 Mai

Mae Wythnos Twristiaeth Cymru yn gyfle i safleoedd twristiaeth ledled Cymru godi ymwybyddiaeth o'r sector ac arddangos ansawdd yr hyn sydd ar gael. I ddysgu mwy am Wythnos Twristiaeth Cymru, gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, ewch i:

https://www.wta.org.uk/wales-tourism-week.html

## BREXIT: Y wybodaeth ddiweddaraf am reolaethau mewnforio ar nwyddau'r UE

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi na fydd gweddill y rheolaethau mewnforio ar nwyddau'r UE yn cael eu cyflwyno eleni a bydd masnachwyr yn parhau i symud eu nwyddau o'r UE i Brydain Fawr fel y maent yn gwneud rŵan. Mae gwybodaeth penodol am pa reolaethau na fydd bellach yn cael eu cyflwyno ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-reolaethau-mewnforio-ar-nwyddaur-ue

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru